CYFRES A7

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran ____________ Dyddiad geni ____________

Enw ____________

Cyfeiriad ____________

____________

Enw Arweinydd y Dosbarth ____________

Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Genesis 25: 21-34
Genesis 27: 1-29



ADNOD ALLWEDDOL
Salm 32: 1

## Gwers 1 Bywyd Jacob – Y Twyllwr

Ydych chi'n nabod efeilliaid? Yn y gwersi yma, byddwn yn edrych ar fywyd gefaill o'r enw Jacob. Plant Isaac a Rebeca oedd Jacob a'i frawd Esau. Ond doedd hwn ddim yn deulu hapus. Roedd Isaac yn cymryd ochr Esau a Rebeca'n cymryd ochr Jacob ac roedd hynny'n achosi trafferth yn y teulu.

**C Tynnwch saeth o bob un o'r rhain i'r llun cywir.**



Esau

1. **Hoff fab Isaac.**
2. **Y brawd ieuengaf.**
3. **Hoff fab Rebeca.**
4. **Heliwr.**
5. **Hwn oedd yn aros gartref.**
6. **Y brawd hynaf.**



Jacob

6 [ ]

Gan mai Esau oedd y brawd hynaf, ef oedd biau'r enedigaeth-fraint. Roedd hyn yn golygu y byddai'n cael breintiau arbennig fel pennaeth y teulu yn nes ymlaen. Dylai fod wedi sylweddoli bod yr enedigaeth-fraint yn bwysig iawn iddo.

**C Un diwrnod, daeth Esau adref. Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddigwyddodd.**

**Dywedodd Esau:**

**Rho ____________________ i mi.**
**Dw i ar ____________________ .**

**Dywedodd Esau:**

**Rho di dy ____________________**
**i mi ac yna gei di ____________________ .**

3 [ ]

Roedd Jacob yn ddigon cyfrwys i ddefnyddio hyn fel cyfle i gael ei ffordd ei hunan. Yn nes ymlaen, cafodd help gan ei fam i dwyllo Esau eto. Y tro hwnnw, bu'n rhaid i Jacob esgus mai Esau oedd e er mwyn twyllo'i dad a oedd yn hen ac yn ddall.

**C Rhowch ran nesaf y stori yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 i 4 yn y blychau. (Darllenwch Genesis 27: 1-25)**

☐ Helpodd hi Jacob i esgus mai Esau oedd e trwy ddefnyddio dillad Esau a chrwyn geifr.

☐ Aeth Esau i hela er mwyn gwneud bwyd i'w dad.

☐ Llwyddodd Jacob i berswadio Isaac mai Esau oedd e ac fe roddodd Isaac y fendith iddo.

☐ Coginiodd Rebeca ddau fyn gafr.

**4**

**C Rhowch gylch o gwmpas yr holl eiriau sy'n disgrifio sut y gwnaeth Jacob ymddwyn.**

**dweud celwydd** **bod yn deg** **dweud y gwir** **twyllo'i dad**

**bod yn hunanol** **bod yn onest**

**3**

Byddai Jacob yn cael llawer o bethau gan mai ef gafodd fendith ei dad.

**C Darllenwch Genesis 27: 28-29 i gael gwybod beth fyddai'r fendith ac yna rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.**

Byddai'n cael digon o (DŶ) __ __ a (NIWG) __ __ __ __ .

Byddai mor bwysig fel bod pobl eraill yn (Y G Y M R U M) __ __ __ __ __ __ __ iddo.

**3**

Er bod Jacob yn iawn i ddymuno cael bendith Duw trwy ei dad, fe aeth o'i chwmpas yn y ffordd anghywir. Ddylai e ddim fod wedi twyllo ei dad a'i frawd. Achosodd lawer o dristwch i'r teulu. Dylai Jacob fod wedi trystio Duw i wneud yr hyn oedd orau iddo yn lle bod yn hunanol ac yn dwyllodrus.

**Mae Duw yn dymuno bendithio pob un ohonom.**
**Mae'n dymuno maddau ein beiau a'n gwneud ni'n blant iddo.**

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

**1**

Does dim y gallwn ni ei wneud i ennill maddeuant. Dim ond pan fyddwn ni'n ymddiried yn yr Arglwydd Iesu y gall Duw faddau i ni.

**cyfanswm**